PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

21 Mehefin 2017

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd Mrs D Clements cyn ystyried Cofnodion y cyfarfod diwethaf (cofnod 3 cyfeir).]

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 11.05am]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans a Mrs J James.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

Cais a Chyfeirnod	**Aelod(au)/Swyddog(ion)**	**Gweithred**
Cofnodion 6(a)isod NP/17/0180/FUL - Gosod 14 o baneli haul (2 res o 7 panel), gwrthdröydd a cheblau cysylltiedig ar dir i'r gogledd o Fagwyr Einon - Fagwyr Einon, Llanychâr, Abergwaun, Sir Benfro, SA65 9SP	Cynghorydd P Morgan Cynghorydd P Harries	Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan llawn yn yr ystyriaethau ynghylch y cais
Cofnodion 6(b)isod NP/17/0229/S73 – Amrywio amod rhif 2 o gais NP/15/0526/FUL - Newidiadau i'r Clwb - Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr, Dinbych y Pysgod, Sir Benfro, SA70 7SX	Cynghorydd P Kidney	Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn yr ystyriaethau ynghylch y cais

Cofnodion 6(c)isod NP/17/0258/FUL - 35 safle llawr caled a phwyntiau cyswllt trydan; newid defnydd dros dro o'r adeilad presennol fel siop sglodion a physgod; defnyddio'r caban symudol fel swyddfa dderbynfa dros dro - Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr, Dinbych y Pysgod, Sir Benfro, SA70	Cynghorydd P Kidney	Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan llawn yn yr ystyriaethau ynghylch y cais

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2017.

NODWYD.

4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud *(mae'r partïon sydd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u ceisiadau perthnasol ac yn y drefn yr oedden nhw'n annerch y Pwyllgor)*:

Rhif cyfeirnod	Cynnig	Siaradwr
NP/17/0229/S73 *Cofnod 6(b) cyfeir*	Amrywio amod rhif 2 o gais NP/15/0526/FUL - Newidiadau i'r Clwb - Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr,	Linda Parker a John Fiddy, gwrthwynebwyr

5. Dyletswyddau Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor o fewn y ddarpariaeth gynllunio ac yn nodi'r rheidrwydd i benderfynu yn unol â

threfniadaeth statudol a'r Cynllun Datblygu Lleol oedd wedi'i fabwysiadu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Pwysleisiwyd bod rhaid anwybyddu ystyriaethau nad oedden nhw'n berthnasol wrth benderfynu materion cynllunio a nodwyd mai eithriad prin iawn oedd ystyriaeth o amgylchiadau personol fel ystyriaeth berthnasol. Pwysleisiwyd hefyd ddyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiad cynaliadwy yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Tra bo'r Aelodau'n gweithredu'r Deddfau Cynllunio yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd fe fydden nhw hefyd yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Awdurdod o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fel yr oedd yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio. Roedd hefyd yn bwysig i'r Aelodau ddefnyddio'r cyfarwyddyd a gynhwysid yn y ddogfen Arfer Da o fewn Cynllunio o eiddo'r Awdurdod wrth iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau statudol**.**

NODWYD

6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a) CYFEIRNOD: NP/17/0180/FUL
YMGEISYDD: Mr a Mrs Kilmister
CYNNIG: Gosod 14 o baneli haul (2 res o 7 panel), gwrthdröydd a cheblau cysylltiedig ar dir i'r gogledd o Fagwyr Einon
LLEOLIAD: Fagwyr Einon, Llanychâr, Abergwaun

Cafodd y cais hwn, ar lethrau isaf Mynydd Dinas, ei gyflwyno i'r Pwyllgor am fod yr ymgeisydd yn gyn-Aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Adroddwyd y byddai'r paneli sydd ynghlwm â'r cais hwn wedi'u lleoli ar dir gyferbyn â'r tai mas cyfredol ac yn cael eu gweld fel rhan o'r prif gymhlyg. O ganlyniad i dopograffi'r tir, y tirweddu aeddfed presennol a'u lleoliad mor agos i'r datblygiad presennol ni fyddai'r paneli i'w gweld o'r un man cyhoeddus, ac ni ystyrid y bydden nhw'n achosi niwed i fwynder gweledol neu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Roedd Swyddog Coed a Thirwedd yr Awdurdod wedi cynghori nad oedd gorchmynion cadwraeth coed wedi'i hawdurdodi ar y safle, ac yn amodol ar fanylion ynghylch darparu gwarchod coed/cloddiau, ynghyd â datganiad ynghylch y modd o fwrw ati i osod y ceblau arfaethedig gerllaw nodweddion coed a chloddiau, doedd yna ddim gwrthwynebiad i'r cynnig.

Daeth y swyddogion felly i'r casgliad, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r polisïau sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol, ac o ystyried pob mater perthnasol, ar y cyfan roedd y datblygiad yn dderbyniol a'r argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau.

Yn y cyfarfod dywedwyd bod yr ymgeisydd wedi cynghori na fyddai'r llwybr gosod y ceblau yn amharu ar batrymau coed a chloddiau ac felly gallai amod tri, yn ymwneud â datganiad dull o gloddio, gael ei ollwng pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd yna safleoedd paneli solar cyffelyb yn yr ardal a fyddai'n cael effaith cronnus ar y tirlun. Atebodd y swyddog ei bod yn ymwybodol o un safle lle'r oedd yna nifer bychan o baneli mewn cae yn nes at Dinas ond roedd yna dirweddu aeddfed o amgylch y ddau safle.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau'n ymwneud ag amseru, yn unol â chynlluniau a gwaredu'r paneli o'r safle pan na fyddai eu hangen mwyach .

(b) CYFEIRNOD: NP/17/0229/S73
YMGEISYDD: Mr D Brown, Seaside Inns Ltd
CYNNIG: Amrywio amod rhif. 2 o NP/15/0526/FUL – newidiadau i'r clwb
LLEOLIAD: Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr, Dinbych-y-pysgod

Nododd yr adroddiad fod safle'r cais yn safle carafanau ers tro byd ac wedi'i lleoli i'r dwyrain o'r ffordd sy'n rhedeg tuag at Gorsaf Maenorbŷr. Roedd llecyn y safle carafanau yn croesi ffiniau Canolfan Gwledig fel roedd wedi'i ddiffinio yn y Cynllun Datblygu Lleol, a'r clwb wedi'i leoli oddi fewn i'r ffiniau ac oddi fewn i dalar bresennol y safle carafanau. Cyflwynwyd y cais gerbron y Pwyllgor am fod safbwynt Cyngor Cymuned Maenorbŷr yn groes i argymhelliad y swyddogion.

Adroddwyd bod Amod 2 o NP/15/0526/FUL yn clymu'r caniatâd i'r cynlluniau oedd wedi'u cymeradwyo ond doedd yr adeilad fel roedd wedi'i godi ddim yn unol â'r cynlluniau oedd wedi'u cymeradwyo. Roedd y cais hwn yn ceisio rheoleiddio'r newidiadau canlynol – cynnydd yn uchder yr adeilad o 20cm; codi balconi llawr cyntaf ynghyd â grisiau allanfa dân; a mân newidiadau i drefniant y gosod allan mewnol.

Cynghorodd y swyddogion fod y clwb wedi'i osod nôl o'r ffordd fawr a pan edrychir arno o fannau cyhoeddus roedd yn ymddangos yn union fel y cafodd ei gymeradwyo, a doedd y newid yn yr uchder ddim yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol y llecyn oddi amgylch na chwaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Roedd y balconi a'r allanfa

dân wedi'u lleoli yn y cefn ac wedi'u cuddio rhag eiddo cyfagos a mannau gweld cyhoeddus ehangach gan yr adeilad deulawr yn y cefn. Doedd y diwygiadau felly ddim yn creu materion o bryder o ran effaith yr adeilad ar fwynderau gweledol y llecyn agos na chwaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Daeth dau lythyr o wrthwynebiad i law wrth breswylwyr lleol ac roedd eu gwrthwynebiadau wedi'u crynhoi yn yr adroddiad. Ond wrth ystyried materion mwynderau a phreifatrwydd roedd y swyddogion o'r farn nad oedd y cynnydd bychan yn uchder y clwb yn creu unrhyw dremio andwyol na threchedd o ystyried bod pellter o 15m rhyngddo a'r eiddo preswyl agosaf. Roedd golygfeydd o'r balconi wedi'u cyfyngu i'r safle carafanau presennol ac ni fyddai'n codi pryderon o ran preifatrwydd.

Roedd y swyddogion felly o'r farn, ar ôl cymryd sylw o'r gwrthwynebiadau, ar ôl ystyried y polisïau a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol a pob ystyriaeth berthnasol arall, nad oedd y diwygiadau a wnaed i'r clwb yn effeithio'n andwyol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol na mwynder cymdogion, a'r argymhelliad oedd cymeradwyo'r cais gydag amodau.

Yn y cyfarfod adroddwyd nad oedd gan adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro unrhyw sylw ar y cais, a thra bod adran Rheoliadau Adeiladau wedi cynghori iddyn nhw dderbyn gwybodaeth ynghylch draenio dŵr brwnt, doedd y mater ddim hyd yma wedi'i gytuno. Awgrymwyd felly y dylid gosod amodau ychwanegol ar unrhyw gymeradwyo i sicrhau na fyddai'r clwb yn cael ei ddefnyddio nes y ceid manylion ynghylch cymeradwyo draenio dŵr brwnt, ac i gyfyngu'r defnydd o'r adeilad tan 1am er mwyn cysondeb â'r oriau gweithredu a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu; awgrymwyd yr amod hwn am fod balconi yn ffurfio rhan o'r cais.

Roedd yna ddau siaradwr a'r ddau yn gwrthwynebu ac roedden nhw'n rhannu'r pum munud a ganiateid. Ar ôl dosbarthu nifer o ffotograffau o'r safle ymhlith yr Aelodau, esboniodd Mrs Linda Parker eu bod ill dau yn gymdogion drws nesaf i'r datblygiad a'u bod yn anhapus fod y cais gwreiddiol wedi'i gymeradwyo heb amodau i ddiogelu mwynder cymdogion, yn wahanol i achlysur blaenorol pan gafodd cais cynllunio ar y safle ei dynnu nôl; roedd am i'r amodau hynny gael eu hychwanegu at y cais hwn. Roedd hi hefyd yn bryderus nad oedd y clwb newydd hwn wedi'i gyfyngu o ran defnydd i breswylwyr y safle carafanau'n unig a'i fod yn agored i'r cyhoedd. Roedd o'r farn fod hyn yn gyfystyr â newid defnydd a dywedodd nad oedd y gymuned wedi cael cyfle i fynegi barn ar y mater. O ran draenio dŵr brwnt roedd Mrs Parker yn amau cywirdeb y carthbwll roedd yr ymgeisydd yn arfaethu ei ddefnyddio a gobeithiai na fyddai caniatâd yn cael ei roi nes y gellid cytuno ar ddull boddhaol o ddraenio

dŵr am fod y tir ar brif ddyfrhaen; cafodd ei harwain i gredu mai trefniant dros dro oedd hyn nes y byddai gorsaf bwmpio yn cael ei hadeiladu. Yn olaf, o ran uchder yr adeilad roedd yn amau p'un a oedd yn uwch na'r hyn a roddwyd caniatâd ar ei gyfer neu yn y man cywir am fod rhan o'r sgubor wedi'i dymchwel i wneud lle ar gyfer y clwb. Terfynodd Mr John Fiddy trwy ddweud bod y clawdd a waredwyd (er gwaethaf y rhybudd) wedi cuddio'r adeilad oddi wrth yr eiddo cyfagos ac wedi sugno sŵn. Ni theimlid y byddai'r wal a fyddai yn ei lle'r un mor effeithiol. Eglurodd wrth yr Aelodau fod y clawdd o goed Leylandii yn iach.

Roedd yr Aelodau'n pryderu fod lefelau oddi fewn i'r safle yn cael eu hamau a gofynnwyd p'un a oedd y tir wedi'i godi. Esboniodd y swyddog bod y tir yn wreiddiol yn goleddu a bod y caniatâd cynllunio gwreiddiol wedi dweud ei bod yn ofynnol i'r adeilad gael ei godi ar dir gwastad; cytunwyd ar y lefelau hyn yn 2015. Wrth gyfeirio at y pwyntiau a wnaed gan y gwrthwynebwyr nododd hefyd fod yr amodau a osodwyd ar y cais yn 2015 hefyd wedi'u cynnwys ar y cais cyfredol, ac am nad oedd cyfyngiad ar ddefnydd o'r adeilad gan y cyhoedd ni ellid gosod cyfyngiad o'r fath ar y cais cyfredol. Am fod y clwb wedi'i leoli yn y Canol Gwledig roedd darpariaeth gymunedol o'r fath yn cael ei annog beth bynnag. Roedd amod yn atal defnydd o'r adeilad nes y gellid cytuno ar fater draenio dŵr brwnt wedi'i argymell ar gyfer y cais hwn. Nodwyd fod yr orsaf bwmpio y cyfeiriwyd ati wedi'i chysylltu i gais arfaethedig ar gyfer codi tai yn yr ardal; ond dim ond trafodaeth cyn-gyflwyno oedd ar y gweill ar hyn o bryd, O ran gwaredu rhan o'r sgubor roedd yr asiant wedi dweud nad oedd hwn erioed wedi'i wirio ac felly ni wyddys i ba raddau roedd hyn wedi'i wneud. Cafodd amod ei osod ar y cais blaenorol i ddiogelu'r cloddiau ar y safle ac roedd rhybudd tor-amod wedi'i gyflwyno'n ymwneud â'r darn o'r clawdd oedd wedi'i waredu. Ystyrid bod wal wedi'i rendro, 1.8m o uchder, yn dderbyniol yn lle'r clawdd am fod deunyddiau cyffelyb wedi'u defnyddio mewn rhannau eraill o'r safle ac mewn ambell eiddo cyfagos.

Mynegodd un aelod ei anfodlonrwydd ynghylch y cais. Dywedodd fod y cais wedi achosi mwy o deimlad drwg yn yr ardal na dim arall. Roedd yn siomedig nad oedd yr amodau wedi'u parchu na chwaith wedi'u gorfodi gan ddweud bod y clawdd wedi darparu rhwystr gweledol yn ogystal â rhwystr rhag sŵn. Byddai'r balconi dim ond yn ychwanegu at y problemau sŵn roedd y cymdogion eisoes yn eu goddef. Roedd y gymuned yn teimlo nad oedd y Parc Cenedlaethol yn cymryd camau priodol. Awgrymodd mai'r unig ffordd i'r Aelodau weld pa mor agos oedd y clwb at eiddo cyfagos ac i werthfawrogi'r aflonyddwch a achosir oedd trwy ymweld â'r safle, a chynigiodd y dylid gwneud hyn. Cafodd hyn ei eilio. Nododd y Cyfarwyddwr Cynllunio na ellid rhoi sicrwydd y byddai amodau a osodir yn cael eu parchu, ni allai'r Awdurdod rwystro tor-amodau o'r fath rhag digwydd, dim ond ceisio eu cywiro wedyn.

Roedd un Aelod o'r farn bod yna ystyriaeth wedi'i roi i bryderon cymdogion ac roedd o'r farn fod gan yr Awdurdod ddyletswydd i gefnogi busnesau lleol hefyd. Cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais ond ni chafodd eilydd.

PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni archwiliad safle.

(c) CYFEIRNOD: NP/17/0258/FUL
YMGEISYDD: Mr D Brown
CYNNIG: Cadw 35 safle llawr caled a phwyntiau cyswllt trydan; newid defnydd dros dro o'r adeilad presennol fel siop sglodion a physgod; defnyddio'r caban symudol fel swyddfa dderbynfa dros dro.

Adroddwyd bod safle'r cais hwn yn faes carafanau oedd wedi'i hen sefydlu wedi'i leoli i'r dwyrain o'r ffordd sy'n rhedeg i gyfeiriad Gorsaf Maenorbŷr. Roedd llecyn y safle carafanau yn croesi ffin y Canol Gwledig yn ôl diffiniad y Cynllun Datblygu Lleol ac roedd yr adeilad derbynfa dros dro, y siop pysgod a sglodion a'r clwb wedi'u lleoli oddi fewn ffiniau'r canol ac oddi fewn talar bresennol y safle carafanau. Ond roedd y cae gogleddol lle'r oedd y lloriau caled a'r pwyntiau cyswllt trydan oddi fewn cefn gwlad agored. Cafodd y cais ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod safbwynt Cyngor Cymuned Maenorbŷr yn groes i eiddo argymhelliad y swyddogion.

Daeth dau lythyr o wrthwynebiad i law wrth breswylwyr lleol ac roedd eu gwrthwynebiadau wedi'u crynhoi a'u trafod yn yr adroddiad.

Nodwyd bod y cae gogleddol wedi cael Trwydded Defnydd Cyfreithlon (NP/13/260/CLE refers) ar gyfer 35 o garafanau neu bebyll rhwng 1 Mawrth - 28 Medi mewn unrhyw un flwyddyn. Doedd y cais presennol ddim yn cynnig cynyddu'r nifer o leiniau neu ymestyn y tymor gwyliau ond yn hytrach cadw'r lloriau caled a'r pwyntiau trydan i wasanaethu'r lleiniau cyfreithlon presennol. O ystyried fod y lleiniau wedi cael Trwydded Defnydd Cyfreithlon roedd yr egwyddor o loriau caled a'r pwyntiau trydan yn cael ei ystyried yn dderbyniol yn y cyswllt hwn. Ond er mwyn sicrhau y byddai effaith weledol y lloriau caled a'r pwyntiau trydan wedi'i gyfyngu yn ystod y cyfnod y tu fas i'r preswylio cyfreithlon, argymhellid cyflwyno manylion y deunyddiau a'r lliw, a chael cytundeb ysgrifenedig ynghylch hynny gyda'r Awdurdod.

Wrth droi at y newid defnydd o'r adeilad derbynfa i siop sglodion a physgod dros dro, a lleoli'r caban symudol fel derbynfa dros dro, nododd y swyddogion gan fod egwyddor y defnydd arfaethedig eisoes wedi'i

dderbyn trwy roi caniatâd ar gyfer yr adeilad clwb (NP/15/526 cyfeir) a chan fod angen yr adeilad a'r defnydd dros dro o'r herwydd tra bo'r gwaith adeiladu ar y gweill, ystyriwyd eu bod yn dderbyniol o ran polisi gydag amod yn cyfyngu'r defnydd/datblygiad i gyfnod dros dro yn unig, a manylion y dull echdynnu ar gyfer y siop sglodion a physgod i'w cyflwyno a'u cytuno gyda'r Parc Cenedlaethol ar bapur. Er mwyn diogelu mwynder preswylio argymhellwyd amod arall hefyd yn cyfyngu oriau agor y siop pysgod a sglodion.

Adroddwyd yn y cyfarfod fod manylion y dulliau echdynnu wedi'u cyflwyno i adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro, ac roedden nhw wedi argymell cyfyngu'r oriau defnydd i 0800 tan 2100 Llun i Sadwrn yn hytrach na 2300 fel roedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Unwaith eto rhannwyd y pum munud o amser siarad gan y gwrthwynebwyr, Mr John Fiddy a Mrs Linda Parker. Esboniodd Mr Fiddy bod y cae o dan sylw wedi'i ddefnyddio ar gyfer pebyll yn y gorffennol, ac roedd wedi cael ei arwain i gredu gan un o gyn-swyddogion Gorfodaeth yr Awdurdod na fyddai carafanau'n cael eu caniatáu ar y cae. Ond roedd yr ymgeisydd wedi sicrhau Tystysgrif Cyfreithlondeb ac roedd nawr wedi gosod lloriau caled yno heb ganiatâd. Roedd o'r farn fod yna gynsail wedi'i osod a holodd beth oedd pwrpas rheolau cynllunio pan oedd yn bosib eu torri heb ddioddef cosb.

Aeth Mrs Parker yn ei blaen i ddweud ei bod o'r farn fod carafanau'n achosi niwed i gymdogion a'r Parc Cenedlaethol. Roedden nhw wedi'i lleoli mewn tirlun hanesyddol ac roedd hynny'n tanlinellu eu natur ymwthiol. Dywedodd y byddai'n annhebygol y byddai caniatâd cynllunio wedi'i roi ond erbyn hyn roedd lloriau caled wedi'u gosod. Nododd fod y carafanau ar y safle gydol y tymor ac roedd o'r farn fod hyn yn newid sylfaenol i'r hyn a oedd wedi'i ganiatáu gan yr hawl cyfreithiol. Awgrymodd gosod lloriau glaswellt a graean yn lle'r lloriau caled. Holodd hefyd a oedd yn dderbyniol caniatáu i gerbydau yrru ar draws y cae oherwydd y perygl o olew'n gollwng.

O droi at y siop pysgod a sglodion dywedodd Mrs Parker y byddai wedi'i leoli'n agos iawn at ei heiddo a'i bod yn dioddef anhwylustod oherwydd sŵn. Credai ei fod hefyd yn lleoliad peryglus i blant chwarae. Doedd hi ddim yn deall pam nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y babell a'r bar oedd eisoes yn eu lle. Credai nad oedd ffliw'r simnai wedi'i gosod yn ddigon uchel ac roedd yn achosi anhwylustod oherwydd y sawr. Doedd yna ddim son am ddraenio dŵr brwnt o'r adeilad ar y cynlluniau ac o'r herwydd doedd dim gwybodaeth a oedd hyn yn achosi niwed. Er mai'r sôn oedd mai adeiladau dros dro oedd y rhain roedd Mrs Parker yn amau hynny. Gofynnodd am atal y defnydd o'r siop pysgod a sglodion nes y

gellid gosod ffliw simnai briodol ynghyd â draenio ac y dylid cyfyngu'r defnydd i'r oriau a awgrymwyd gan Diogelu'r Cyhoedd.

Credai'r Aelodau unwaith eto y byddai ymweliad safle'n ddefnyddiol a chafodd hyn ei gynnig a'i eilio. Gofynnon nhw hefyd am gael gweld y Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon. Roedd rhai Aelodau'n mynegi pryder ynghylch presenoldeb pabell a chytunodd swyddogion i wirio sut roedd wedi'i ddiogelu yn y ddaear ac am ba hyd roedd wedi bod ar y safle, am y byddai hynny'n penderfynu p'un a oedd angen caniatâd cynllunio neu beidio.

PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni archwiliad safle.

[Cyflwynodd y Cynghorydd D Clements ymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod yn y fan hon.]

7. Gorfodaeth - Tir oddi ar The Ridgeway, Maenorbŷr Newton, Dinych-y-pysgod

Adroddwyd bod dau Orchymyn Gorfodaeth Cynllunio wedi'u gweini gan yr Awdurdod ar 24 Gorffennaf 2015 o ganlyniad i ddatblygiad ar dir oddi ar The Ridgeway, Maenorbŷr na chafodd ganiatâd cynllunio. Y drosedd oedd gosod carafanau preswyl, codi adeiladau preswyl cysylltiedig â newid defnydd o'r tir o amaethyddol i storio carafanau sefydlog a symudol heb awdurdod, storio deunyddiau adeiladu heb awdurdod, cadw ceffylau a newid defnydd o dir amaethyddol i ddefnydd preswyl gan effeithio'n andwyol ar leoliad Heneb SAMPe311 a oedd yn rhan o leoliad hanesyddol Carnedd Caeriw.

Apeliwyd yn erbyn y Gorchmynion Gorfodaeth ac roedd wedi'i wrthod (cafodd penderfyniad yr Apêl ei ddosbarthu ar wahân i'r Aelodau) ac o ganlyniad daeth y Gorchymyn Gorfodaeth i rym ar 10 Mai 2016 gyda chyfnod i gydymffurfio wedi'i ganiatáu tan 10 Mai 2017. Hyd yma doedd y Gorchmynion Gorfodaeth ddim wedi'u gweithredu.

Oherwydd y materion oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad ystyriwyd y byddai'n hwylus i weithredu ymhellach ynghylch y datblygiad nad oedd wedi'i awdurdodi. Doedd y datblygiad ddim wedi'i awdurdodi ac roedd yn effeithio'n andwyol tu hwnt ar gymeriad dilychwin y cefn gwlad oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol, a doedd e ddim yn cydymffurfio ag amcanion y polisïau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cyfarwyddyd Polisi Cenedlaethol. O'r herwydd gofynnid am ganiatâd i'r Prif Weithredwr/Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu awdurdodi cyfreithwyr i gychwyn camau erlyn mewn Llys Ynadon ynghylch y gwrthodiad i gydymffurfio â'r Gorchmynion Gorfodaeth Newid Defnydd a Datblygu Gweithredol fel roedd wedi'i osod allan yn yr adroddiad.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod y perchnogion tir ers mis Mai wedi gosod ffordd er mwyn sicrhau gwell mynediad i'r eiddo lle'r oedden nhw, mae'n debyg, yn byw rhan amser.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Prif Weithredwr/ Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu i roi cyfarwyddyd i gyfreithwyr i gychwyn camau erlyn mewn Llys Ynadon ynghylch y gwrthodiad i gydymffurfio â'r Gorchmynion Gorfodaeth Newid Defnydd a Datblygu Gweithredol fel roedd wedi'i osod allan yn yr adroddiad.

9. Apeliadau

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu am chwech o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, a rhoddodd fanylion am y diweddaraf o ran y broses apêl ymhob achos.

Nodwyd fod apeliadau am dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd tymhorol ar gyfer gwersyllfa ynghyd â maes parcio, Slate Mill Lodge Dale a chais ôl-weithredol ar gyfer iwrt, llwyfan a golchdy ynghyd â bwrdd dehongli, Felin Isaf, Feidr Treginnis, Tyddewi wedi'u gwrthod.

Rhoddwyd gair o ddiolch i Gyngor Cymuned Marloes a Saint Bryd am eu cymorth yng ngwrandawiad Slate Mill Lodge.

Roedd yr apêl ynghylch newid defnydd o dir i osod caban pren, ceudwll a darn o goncrid – tir gyferbyn i St Helens, Wisemans Bridge i'w gynnal y diwrnod canlynol ac roedd y Cadeirydd am ddiolch i'r Aelodau hynny a fyddai'n cymryd rhan yn y gwrandawiad.

NODWYD.